Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Haen Gyffredinol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy: Canllawiau 2026

# Atodiad

**Neges Bwysig: Mae’n bwysig iawn eich bod yn darllen ac yn deall y Llyfryn hwn os ydych yn bwriadu ceisio am Haen Gyffredinol Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026.**

**Rhaid darllen y llyfryn hwn ar y cyd â chanllawiau Haen Gyffredinol Cynllun Ffermio Cynaliadwy 2026.**

**Chwefror 2026**



# Contents


Cyflwyniad .......... 3

1. D2 Pa dir sy'n gymwys .......... 5

2. Adran H: Y Cod i Bawb .......... 6

3. Adran J4: UA4: Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) .......... 7

4. Adran J8: UA8: Rheoli Perthi/Gwrychoedd .......... 8

5. Adran J11: UA11: Yr Amgylchedd Hanesyddol .......... 9

6. Adran L: Gwneud Cais a Dilysu .......... 10

7. Adran Q: Lleihau taliadau, cosbau, eithriadau a'r ddarpariaeth ar gyfer cywiro camgymeriadau .......... 11

8. Atodiad 3: UA6: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella – gofynion opsiynau creu cynefin .......... 12

9. Atodiad 4: Codau Cnydau .......... 13

10. Atodiad 6: Dyddiadau Pwysig .......... 17

# Cyflwyniad

Mae'r atodiad hwn yn cyfeirio at ganllawiau Haen Gyffredinol Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) Llywodraeth Cymru 2026 a gyhoeddwyd ar 17 Rhagfyr 2025.

Mae'r newidiadau a'r ychwanegiadau yn y ddogfen hon yn cymryd lle'r canllawiau hynny yn y mannau perthnasol.

Mae'r holl newidiadau ac ychwanegiadau'n cael eu gwneud i:

1. ***Adran H: Y Cod i Bawb H3 Rhan 3: Coed a H4 Rhan 4:* Nodweddion y dirwedd:** Mae'r newidiadau hyn yn ymwneud â'r gofynion i gadw coed ar eich daliad.

2. **Adran J4: *UA4 - Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP): J4.3 Gofynion*** Mae'r newid hwn yn egluro gofynion dysgu allanol (nid trwy Cyswllt Ffermio)

3. ***Adran J8: UA8: Rheoli Perthi/Gwrychoedd. J8.3 Gofynion*** Newid i egluro'r gofynion ar gyfer torri/tocio perthi/gwrychoedd yn uwch a thorri/tocio bob yn ail flwyddyn, ac ychwanegiad i egluro y gall caniatáu i blanhigion mewn perthi dyfu gyfrif at ofynion UA10: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd.

4. ***Adran J11: UA11: Yr Amgylchedd Hanesyddol. J11.2 Pwy ddylai gynnal y Weithred Gyffredinol hon*** Mae'r ychwanegiad hwn yn egluro cyfrifoldebau tenantiaid mewn perthynas â'r Weithred Gyffredinol hon.

5. ***Adran L: Gwneud Cais a Dilysu L11 Dogfennau Ategol.*** Mae'r ychwanegiadau hyn yn egluro'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno dogfennau ategol yn hwyr i ddangos tystiolaeth o'r 550 o oriau llafur safonol a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth i gefnogi dileu neu newid darnau o gynefin ar haen gyfyngiadau'r Arolwg Sylfaenol o Gynefinoedd ar gyfer UA5: Cynnal Cynefin.

6. ***Adran Q: Lleihau taliadau, cosbau, eithriadau a'r ddarpariaeth ar gyfer cywiro camgymeriadau. Q3 Gorddatgan Tir.*** Mae'r ychwanegiad hwn yn egluro na fydd gostyngiad yn y taliad os yw'r gwahaniaeth rhwng yr Arwynebedd Fferm Gyfan a welwyd mewn archwiliad a'r arwynebedd a gafodd ei ddatgan yn llai na 0.10 hectar.

7. ***Atodiad 3: UA6: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella – gofynion opsiynau creu cynefin 9.* Gwyndynnydd cymysg ar dir wedi'i wella gyda chyfnod caeedig (mae gwyndynnydd amlrywogaeth neu flodeuog yn enwau eraill arnynt)** Mae'r newid hwn yn egluro na ddylid ystyried hybridau a chyltifarau rhygwellt fel rhywogaeth ar wahân i rygwellt.

8. ***Atodiad 4: Codau Cnydau.*** Ychwanegu Tabl 3, sy'n nodi manylion y codau cnydau sy'n gydnaws â Dosbarthiadau Cynefinoedd ac Opsiynau Cynefinoedd Dros Dro UA5: Cynnal Cynefin, Dosbarthiadau Cynefinoedd ac UA6: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella

9. ***Atodiad 6: Dyddiadau Pwysig.*** Mae'r newid hwn yn egluro'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth o blaid dileu neu newid cynefinoedd ar haen gyfyngiadau'r Arolwg Sylfaenol o Gynefinoedd ar gyfer UA5: Cynnal Cynefin.

# 1. D2 Pa dir sy’n gymwys

Llacio’r gofyn i fod â rheolaeth ar y tir am 10 mis ar gyfer 2026

**Testun ychwanegol:**

Os ydych chi'n elwa ar ewyllys gaiff ei setlo rhwng 28 Chwefror a 15 Mai, rhaid i chi wneud cais am gael llacio'r rheolau (rhanddirymiad) gan ddefnyddio Ffurflen Rhanddirymiad RPW Ar-lein cyn cyflwyno’ch cais am SFS ar eich SAF.

# 2. Adran H: Y Cod i Bawb

## H5 Rhan 3: Coed

**Testun Gwreiddiol:**
*Nod y gofynion hyn yw cadw a chynnal pob coeden ar eich daliad, gan gynnwys coed aeddfed, hynod a hynafol presennol yn ogystal ag unrhyw goeden a gaiff ei phlannu er mwyn dangos cynnydd o ran cyflawni eich cynllun cyfle i blannu coed a chreu perthi/gwrychoedd .*

**Gan roi yn ei le:**
Nod y gofynion hyn yw cadw a chynnal pob coeden aeddfed, hynod a hynafol sy'n bod eisoes yn ogystal ag unrhyw goeden a blannwyd sy'n dangos eich cynnydd tuag at gyflawni'ch cynllun cyfle i blannu coed a chreu perthi/gwrychoedd .

**Testun Gwreiddiol:**

*Peidiwch â gwneud y canlynol:*

- *Cwympo unrhyw goeden oni bai bod eithriad yn gymwys.*

**Gan roi yn ei le:**

Peidiwch â gwneud y canlynol:

- Cwympo unrhyw goeden aeddfed, hynod neu hynafol sy'n bod eisoes, nac
- Unrhyw goeden a blannwyd sy'n dangos eich cynnydd tuag at gyflawni'ch cynllun cyfle i blannu coed a pherthi/gwrychoedd, oni bai bod eithriad yn gymwys.

H6 Rhan 4: Nodweddion y dirwedd

**Testun Gwreiddiol:**

*Peidiwch â gwneud y canlynol:*

- *Cwympo unrhyw goeden oni bai bod eithriad yn gymwys.*

**Gan roi yn ei le:**

Peidiwch â gwneud y canlynol:

- Cwympo unrhyw goeden aeddfed, hynod neu hynafol sy'n bodoli eisoes nac unrhyw goeden a blannwyd sy’n dangos eich cynnydd tuag at gyflawni'ch cynllun cyfle i blannu coed a pherthi/gwrychoedd oni bai bod eithriad yn gymwys.

# 3. Adran J4: UA4: Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

## J4.3 Gofynion

**Dysgu Allanol (nid trwy Cyswllt Ffermio)**

**Testun Gwreiddiol:**

*Ni fydd presenoldeb mewn cynadleddau, sioeau teithiol na chyfarfodydd yn dderbyniol. Fodd bynnag, os yw'r digwyddiadau hyn yn cynnwys sesiynau neu grwpiau trafod sy'n bodloni'r meini prawf uchod (e.e. yn bodloni un neu fwy o amcanion SLM) gellid eu hystyried cyn belled â'ch bod yn cadw tystiolaeth eich bod wedi cymryd rhan a  manylion yr hyn rydych wedi'i ddysgu.*

**Gan roi yn ei le:**

Nid yw bod yn bresennol mewn cynhadledd, sioe deithiol neu gyfarfod cyffredinol ynddo'i hun yn dderbyniol.

**Sesiynau Cynadledda a Digwyddiadau Addysgol Eraill**
Er mwyn adlewyrchu fformat unigryw cynadleddau a digwyddiadau addysgol eraill, ystyrir bod sesiynau penodol o fewn y digwyddiadau hyn yn gymwys os:

1. ydyn nhw'n bodloni un neu fwy o'r amcanion SLM a restrir uchod.
2. yw'r cyfranogwr yn cadw tystiolaeth o'i bresenoldeb, yn unol â'r cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion a ddisgrifir isod.

Nid yw elfennau cynhadledd neu ddigwyddiad nad ydynt yn gysylltiedig ag amcan SLM (fel mannau arddangos, rhwydweithio, neu bresenoldeb cyffredinol) yn gymwys.

Bydd cyfleoedd DPP allanol yn cael eu monitro, a bydd y gofynion yn cael eu hadolygu a'u hailasesu ar gyfer blynyddoedd nesaf y Cynllun.

# 4. Adran J8: UA8: Rheoli Perthi/Gwrychoedd

## J8.3 Gofynion

**Testun Gwreiddiol:**

- *Rhaid ichi adael i'r berth dyfu'n fwy trwchus ac yn dalach trwy ei thocio i bwynt ychydig yn uwch a lletach bob tro rydych yn ei thocio neu'n ei thorri. Dylai'r pwyntiau hyn adael o leiaf 5cm yn fwy o dyfiant rhwng pob toriad. Ar ôl i'r berth dyfu 3m x 2m (neu 2m x 3m) o led ac o uchder, gallwch ddewis ei chadw ar y maint hwnnw drwy ei thorri.*

  *Rydym yn cydnabod y gall perthi mewn mannau sy'n agored i wyntoedd cryfion ar yr arfordir neu yn yr ucheldir dyfu'n arafach ac na fyddant yn tyfu'r 5cm a ddisgwylir. Fodd bynnag, bydd dal gofyn ichi adael tyfiant wrth docio.*

**Gan roi yn ei le:**

- Rhaid ichi adael i'r berth dyfu'n fwy trwchus ac yn dalach trwy ei thocio i bwynt ychydig yn uwch a lletach bob tro rydych yn ei thocio neu'n ei thorri. Dylai fod yna o leiaf 5cm yn fwy o dyfiant rhwng pob toriad. Ar ôl i'r berth dyfu i fod 3m x 2m (neu 2m x 3m) o led ac o uchder, gallwch ddewis ei chadw ar y maint hwnnw drwy ei thorri bob yn ail flwyddyn.

  Rydym yn cydnabod y gall perthi mewn mannau sy'n agored i wyntoedd cryfion ar yr arfordir neu yn yr ucheldir dyfu'n arafach ac na fyddant yn tyfu'r 5cm a ddisgwylir. Fodd bynnag, bydd dal gofyn iddynt dyfu fesul cam a nodwyd a'u tocio bob yn ail flwyddyn.

## Caniatáu i blanhigion yn y berth dyfu.

**Testun Ychwanegol:**

Gall planhigion presennol y berth sy'n cael eu caniatáu i dyfu fel coed perthi gyfrif tuag at ofynion UA10: Cynllun Cyfle i Blannu Coed a Chreu Perthi/Gwrychoedd.

# 5. Adran J11: UA11: Yr Amgylchedd Hanesyddol

## J11.2 Pwy sydd angen cwblhau'r Weithred Gyffredinol hon?

**Testun Ychwanegol:**

Os ydych chi'n hawlio Haen Gyffredinol yr SFS ar dir tenant lle ceir henebion cofrestredig, nodweddion yr amgylchedd hanesyddol, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig neu adeiladau fferm traddodiadol y mae'r landlord wedi'u cadw allan o'r cytundeb tenantiaeth, ni fydd y gofynion yn gymwys gan nad yw'r nodweddion hyn yn rhan o gytundeb eich tenantiaeth, ac nid oes gennych reolaeth drostynt.

Fodd bynnag, os nad yw'r landlord wedi cadw unrhyw rai o'r nodweddion hyn o'r cytundeb, bydd eich cyfrifoldeb amdanyn nhw wedi'i nodi yng nghymalau cynnal, trwsio ac amnewid eich cytundeb tenantiaeth. Ar gyfer tenantiaethau sy'n dod o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, efallai y bydd angen i chi hefyd ddarllen cymalau trwsio'r model rheoleiddio perthnasol. Dylech gymryd eu bod wedi'u hymgorffori yn eich cytundeb tenantiaeth os yw'r cytundeb tenantiaeth yn dawel neu'n anghyflawn o ran y rhwymedigaethau trwsio rhwng y landlord a'r tenant.

# 6. Adran L: Gwneud Cais a Dilysu

## L11 Dogfennau Ategol

**Tystiolaeth eich bod yn Gymwys – 550 awr o lafur safonol**

**Testun Ychwanegol:**

Rhaid cyflwyno'r dogfennau canlynol erbyn 15 Mai 2026. Bydd dogfennau ategol a gyflwynir o 16 Mai 2026 hyd at a chan gynnwys 9 Mehefin 2026 yn cael cosb am eu cyflwyno'n hwyr o 1% bob diwrnod gwaith.

Caiff dogfennau ategol sy'n cyrraedd ar ôl 9 Mehefin 2026 eu gwrthod ac efallai y caiff eich hawliad am Haen Gyffredinol yr SFS hefyd ei wrthod.

**Tystiolaeth i gefnogi dileu neu newid darnau o gynefin ar haen gyfyngiadau'r Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd ar gyfer UA5: Cynnal Cynefin**

**Testun Ychwanegol:**

Rhaid i'r holl Ddogfennau Ategol sy'n ofynnol ar gyfer Haen Gyffredinol yr SFS mewn perthynas â dileu neu newid darnau o gynefin ar haen gyfyngiadau ddod i law Llywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2026.

Dylech reoli'ch tir yn unol â gofynion y Cod i Bawb a'r dosbarth cynefin perthnasol ar gyfer UA5: Cynnal Cynefin nes i chi dderbyn cadarnhad bod eich cais wedi'i gymeradwyo.

# 7. Adran Q: Lleihau taliadau, cosbau, eithriadau a'r ddarpariaeth ar gyfer cywiro camgymeriadau

## Q3 Gorddatgan Tir

**Testun ychwanegol:**

Os bydd Arwynebedd Fferm Gyfan a welwyd mewn archwiliad yn llai na'r arwynebedd gafodd ei ddatgan, bydd y taliad yn cael ei gyfrifo ar sail yr arwynebedd lleiaf. Ond os yw'r gwahaniaeth yn llai na 0.10 hectar, bydd y taliad yn seiliedig ar yr arwynebedd gafodd ei ddatgan.

# 8. Atodiad 3: UA6: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella – gofynion opsiynau creu cynefin

## 9. Gwyndynnydd cymysg ar dir wedi'i wella gyda chyfnod caeedig (mae gwyndynnydd amlrywogaeth neu flodeuog yn enwau eraill arnynt)

**Gofynion**

**Testun Gwreiddiol:**

- *dylid sefydlu gwyndwn cymysg sy'n cynnwys o leiaf pum rhywogaeth wahanol o laswellt, tair rhywogaeth o godlys a thair rhywogaeth flodeuog*
- *rhaid hau o leiaf 25kg/hectar*
- *ni chewch hau mwy na 6kg/ha o rygwellt*
- *dim mwy na 9kg/ha o hadau glaswellt eraill (dim mwy na chyfanswm o 15kg/ha o hadau glaswellt)*

**Gan roi yn ei le:**

- dylid sefydlu gwyndwn cymysg sy'n cynnwys o leiaf pum rhywogaeth wahanol o laswellt, tair rhywogaeth o godlys a thair rhywogaeth flodeuog At ddibenion UA hon yr SFS, nid yw hybridau a chyltifarau yn cael eu hystyried yn rhywogaethau ar wahân
- rhaid hau o leiaf 25kg/hectar o hadau
- ni chewch hau mwy 6kg/ha o rygwellt (gan gynnwys hybridau/cyltifarau rhygwellt)
- ni chewch hau mwy na 9kg/ha o hadau glaswellt eraill (hyd at gyfanswm o 15kg/ha o hadau glaswellt)

# 9. Atodiad 4: Codau Cnydau

## Ychwanegu Atodiad 4: Tabl 3:

### Haen Gyffredinol yr SFS - Codau Cnydau Cydnaws ar gyfer UA5: Cynnal Cynefinoedd ac UA6: Creu cynefin dros dro ar dir wedi'i wella

Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r codau cnydau sy'n gydnaws â phob un o'r dosbarthiadau Cynefin.

Wrth lenwi'r adran data caeau ar y SAF, dylech ddatgan y codau cnydau sy'n disgrifio'n gywir y gorchudd cnydau ar eich parseli.

Dylech ddatgan o leiaf un cod cnwd sy'n gydnaws â phob Dosbarth Cynefin yn y parsel hwnnw, yn adran data caeau eich SAF 2026.

Os nad yw gorchudd cnydau'r parsel yn cynnwys o leiaf un o'r codau cnydau a nodir isod ar gyfer dosbarth Cynefin, dylech ystyried newid dosbarth y Cynefin gafodd ei ddatgan yn yr Adolygiad Sylfaenol o Gynefinoedd.

Bydd datgan codau cnydau anghydnaws yn golygu y bydd angen mwy o amser i ddilysu'ch hawliad Haen Gyffredinol SFS.

| **Dosbarthiadau Cynefinoedd Parhaol (UA5)** | **Codau Cnydau Cydnaws** |
|---|---|
| Morfeydd Heli | SM2 - Morfa heli pori<br><br>SM1 - Morfeydd heli - di-stoc |
| Twyni tywod arfordirol a thraethau graean | SD1 - Twyni Tywod<br><br>YY41 Sgri / cnycau / creigiau / tywod - gwasgaredig<br><br>ZZ40 - Sgri / creigiau /cnycau / tywod - grŵp |
| Rhos yr arfordir a rhos llawr gwlad | HE7 - Rhostir pori<br><br>HE6 - Rhostir - di-stoc<br><br>RU1 – Brwyn<br><br>HE9 - Grug<br><br>GR2 - Glaswellt parhaol - 5 mlynedd neu fwy |

| | |
|---|---|
| Gwlyptir wedi'i amgáu a glaswelltir corsiog: | RE1 – Cyrs<br><br>RU1 – Brwyn<br><br>GR2 - Glaswellt parhaol - 5 mlynedd neu fwy |
| Glaswelltir sych lled-naturiol caeedig | RU1 – Brwyn<br><br>GR2 - Glaswellt parhaol - 5 mlynedd neu fwy |
| Cynefinoedd agored yr ucheldir | HE7 - Rhostir pori<br><br>HE9 – Grug<br><br>GR2 - Glaswellt parhaol - 5 mlynedd neu fwy |
| Perllannau traddodiadol | AP4 – Afalau<br><br>NU2 – Cnau castan<br><br>NU4 – Cnau Ffrengig<br><br>NU5 - Cnau cyll<br><br>OR3 – Perllan – Cymysg<br><br>PE10 – Gellyg<br><br>PL2 - Eirin / Eirin Gwyrdd / Ceirios / Almonau<br><br>TP8 – Coed â Gorchymyn Cadw |
| Rhedyn trwchus | YY21 - Rhedyn - gwasgaredig<br><br>ZZ20 - Rhedyn - grŵp |
| Prysgwydd | ZZ22 - Prysgwydd / Eithin / Mieri – grŵp<br><br>YY23 - Prysgwydd / Eithin / Mieri – gwasgaredig<br><br>GC3 - Corneli caeau/ymyl coetir - di-stoc<br><br>GS1 - Prysgwydd / Eithin / Mieri - di-stoc<br>o dan gytundeb rheoli<br><br>GS2 -Prysgwydd / Eithin / Mieri - di-stoc<br><br>SC2 – Coridorau Glan Nant - di-stoc |

| | |
|---|---|
| Coetir pori | YY14 - Coetir Conwydd – Gwasgaredig<br><br>YY15 - Coetir Llydanddail – Gwasgaredig<br><br>ZZ10 Coetir Conwydd – grŵp<br><br>ZZ11 Coetir Llydanddail – grŵp |
| Pyllau parhaol ar gyfer bywyd gwyllt | PD1 - Pyllau dŵr cymwys<br><br>PD2 - Pyllau dŵr – yn gymwys ar gyfer yr SFS - hyd at 1ha neu lai |
| Ardaloedd o gynefin sydd newydd eu creu ar dir wedi'i wella | GR2 - Glaswellt parhaol - 5 mlynedd neu fwy<br><br>GR2 - Glaswellt parhaol - 5 mlynedd neu fwy<br><br>SC2 – Coridorau Glan Nant - di-stoc |

| **Cynefinoedd Dros Dro (UA6)** | **Codau cnydau cydnaws** |
|---|---|
| Talarau o ŷd a llin heb eu gwrteithio, eu chwistrellu na'u cynaeafu. | BA4 - Haidd - wedi'i hau yn y gaeaf<br>BA5 - Haidd - wedi'i hau yn y gwanwyn<br><br>OA4 - Ceirch - wedi'i hau yn y gaeaf<br>OA5 - Ceirch - wedi'i hau yn y gwanwyn<br><br>TC3 - Rhygwenith - wedi'i hau yn y gaeaf<br>TC4 - Rhygwenith - wedi'i hau yn y gwanwyn<br><br>WT1 - Gwenith - wedi'i hau yn y gaeaf<br>WT2 - Gwenith - wedi'i hau yn y gwanwyn<br><br>LI4 - Llin/Linola - wedi'i hau yn y gwanwyn<br>LI5 - Llin/Linola - wedi'i hau yn y gaeaf |
| Ymyl sefydlog o borfa arw ar dir âr | GR1 - Glaswellt dros dro – o dan 5 mlynedd<br><br>GR2 - Glaswellt parhaol - 5 mlynedd neu fwy<br><br>FM1 - Ymylon Caeau |

| | |
|---|---|
| Ymyl o borfa arw mewn cylchdro ar dir âr | GR1 - Glaswellt dros dro – o dan 5 mlynedd<br>GR2 - Glaswellt parhaol - 5 mlynedd neu fwy<br>FM1 - Ymylon Caeau |
| Cymysgedd o ydau a chnydau protein wedi'u hau yn y gwanwyn, heb eu chwistrellu, gan gadw'r sofl | UM1 - Cymysgedd o ydau a chnydau protein wedi'u hau yn y gwanwyn, heb eu chwistrellu |
| Cadw sofl ydau dros y gaeaf | BA4 - Haidd - wedi'i hau yn y gaeaf<br>BA5 - Haidd - wedi'i hau yn y gwanwyn<br>OA4 - Ceirch - wedi'i hau yn y gaeaf<br>OA5 - Ceirch - wedi'i hau yn y gwanwyn<br>TC3 - Rhygwenith - wedi'i hau yn y gaeaf<br>TC4 - Rhygwenith - wedi'i hau yn y gwanwyn<br>WT1 - Gwenith - wedi'i hau yn y gaeaf<br>WT2 - Gwenith - wedi'i hau yn y gwanwyn |
| Cnwd gorchudd ar gyfer bywyd gwyllt ar dir wedi'i wella | WB1 - Cnwd Gorchudd ar gyfer Bywyd Gwyllt |
| Clustogfa heb ei chwistrellu, heb ei gwrteithio a heb ei thrin wrth ymyl cynefin presennol (gan gynnwys dŵr agored) ar laswelltir wedi'i wella | GR1 - Glaswellt dros dro – o dan 5 mlynedd<br>GR2 - Glaswellt parhaol - 5 mlynedd neu fwy<br>FM1 - Ymylon Caeau |
| Gwyndynnydd cymysg ar dir wedi'i wella (mae gwyndynnydd amlrywogaeth neu flodeuog yn enwau eraill arnynt) | ML1 - Gwyndynnydd Cymysg |
| Glaswelltir wedi'i wella, a'i dorri'n hwyr | GR1 - Glaswellt dros dro – o dan 5 mlynedd<br>GR2 - Glaswellt parhaol - 5 mlynedd neu fwy<br>GR8 - Glaswellt parhaol – wedi'i ail-hau yn y 12 mis diwethaf |
| Glaswelltir wedi'i wella sydd wedi cael ei adael i hadu | GR1 - Glaswellt dros dro – o dan 5 mlynedd<br>GR2 - Glaswellt parhaol - 5 mlynedd neu fwy<br>GR8 - Glaswellt parhaol – wedi'i ail-hau yn y 12 mis diwethaf |

# 10. Atodiad 6: Dyddiadau Pwysig

**Testun Gwreiddiol:**

| Dyddiad | Digwyddiad |
|---|---|
| 15 Mai 2026 | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno dogfennau ategol heb gosb |

**Gan roi yn ei le:**

| Dyddiad | Digwyddiad |
|---|---|
| 15 Mai 2026 | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno dogfennau ategol fel tystiolaeth eich bod yn gymwys (tystiolaeth o 550 o oriau o lafur safonol) heb gosb |
| 31 Rhagfyr 2026 | Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno dogfennau ategol fel tystiolaeth o gais i newid neu ddileu darn o gynefin ar haen gyfyngiadau'r Arolwg Sylfaenol o Gynefinoedd ar gyfer UA5: Cynnal Cynefin. |